

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad â mwy o deuluoedd yr ardal sydd wedi cael profedigaeth dros y dyddiau diwethaf. Cofiwn yn arbennig am Rhys Dafis a gweddill y teulu ym marwolaeth ei fam, Mrs Morfudd Davies (Llansannan). Diolchwn am fywyd a llafur un a fu'n hynod o ffyddlon a gweithgar yn yr eglwys, ac yn flaenores am 35 o flynyddoedd. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad ag Edna Evans (Llanfair) a'r teulu ym marwolaeth brawd Edna. Cyflwynwn y teuluoedd hyn i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant oll yn profi cariad Duw yn eu hamgylchynu dros y diwrnodau a'r wythnosau i ddod.
- Mae Barbara Williams a Menna Streeter (Henllan) yn parhau'n yr Inffirmari a chofiwn am eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda y dyddiau hyn hefyd.
- Dymunwn Dduw yn rhwydd i Mrs Enid Jones (Llansannan) a hithau bellach wedi setlo yng Nghartref Plas Ogwen, Bethesda. Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mr Gwilym Foulkes (Dolwen); Mrs Mair Roberts a Miss Hannah Alice Jones (Yr Hen Ficerdy); Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mr Elfed Davies (Plas Eleri); a Mr Harold Lloyd (Hafan Gwydir). Diolchwn am y gofal y maent yn ei dderbyn yno.
- Llongyfarchiadau i Arfon Davies (Saron) a Mari ar enedigaeth merch fach.

Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarfodydd/digwyddiadau sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn Nos Fercher nesaf, os gwelwch yn dda.

I ddod

- Bydd y cwrs **Souled Out**, sydd ar gyfer ieuencid hŷn, yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, Awst 12fed-19fed. Mae'r Henaduriaeth yn cynnig cymhorthdal o hyd at 25% i bob unigolyn sydd am fynd ar y cwrs. I dderbyn y cymhorthdal, cysylltwch â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.
- **Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod Nos Iau, Medi 22ain yng Nghapel Henllan am 7.00 pryd y cawn gwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala.
- **Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cynnal Encil yng Ngholeg y Bala, dydd Iau, Medi 29ain. Os oes rhywrai â diddordeb i fynychu, cysylltwch â Marian Davies (870619), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10^{fed} Gorffennaf 2011

Cofiwch anfon manylion unrhyw gyfarfodydd dros yr haf erbyn nos Fercher nesaf. (Gweler y cefn.)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Croeso mawr i chi i oedfaon y dydd heddiw wedi wythnos brysur rwy'n siŵr i lawer ohonoch. Mae 'na rywbeth braf mewn cynaeafu. Diolchwn am ffyddlondeb yr Arglwydd, pob dydd yn dod â'i fendithion a phob tymor yn dod O'i law. Cawsom ddiwrnod gwych dydd Sul diwethaf – tywydd da a llond capel o hwyl, a throchfa ddŵr – hefo Martyn Geraint!

Roeddem yn falch iawn o'r cyfle i roi diolch i Sarah am ei holl wasanaeth i'r Arglwydd hefo ni a'r plant yn arbennig. Os yw Duw yn gallu rhoi tymhorau hau a medi er ein lles ac o'i ddaioni, mae hefyd yn gallu rhoi pobl dda yng nghymdeithas ei Eglwys i'n hadeiladu a'n dysgu. Diolchwn am gael adnabod rhai ohonynt.

Cawsom Dduw yn agos yn Oedfa'r hwyr hefyd a bendith fawr o ystyried y ffynhonnau sy'n cael eu hagogi ni, a'r dyfroedd byw sy'n disychedu'r enaid. Diolchwn fod yr Ysbryd ar waith yn ein tywys at yr Iesu fel y wraig o Samaria a ddaeth at y ffynnon. Mae angen am brofi y dŵr bywiol, a pharhawn i godi teuluoedd profedigaeth yr ardal at yr Iesu yn ein gweddïau. Mae'n braint yn fawr ac mae'r Arglwydd yn cofio amdanom, er mai llwch ydym! Mae addewid ein Duw yn glir – y bydd yn newid ein cyrff marwol ni ac yn ein gwisgo ag anfarwoldeb a bydd y mymryn llwch hwn yn cael gweld gogoniant Duw! Diolchwn ymhellach am gyfraniad y saint sydd wedi ein rhagflaenu i blith y cwmwl tystion.

Mae'r hysbyseb am y swydd o Gynorthwy-ydd Gweinidogaethol yn yr wasg yr wythnos hon ac mae'r Sasiwn, fel y gwyddoch wedi cytuno i ariannu'r swydd am dair blynedd eto. Mae'r Henaduriaeth a'r Ofalaeth yn ymrwymo i'r cyfnod hefyd a gobeithio y bydd Duw yn arwain ym mhob agwedd o'r gwaith hwn. Gobeithiwn fedru apwyntio cyn diwedd y mis er mwyn cael cychwyn o'r newydd o fis Medi ymlaen. Cais sydd gennyf arnoch i weddio dros lwyddiant y gwaith o apwyntio ac y caiff yr Arglwydd ei ogoneddu. Diolch i chi a phob bendith ar ein haddoliad heddiw.

Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol

Er mwyn datblygu a hyrwyddo'r weledigaeth ac i sylweddoli nod y Fro, cynigir cyfle i unigolyn/unigolion brwdfrydig i ymuno gyda'r tîm presennol i ddarparu gweinidogaeth eang, a fydd yn cynnwys bugeilio, gweithio gyda theuluoedd ifanc, arwain oedfaon a chyfarfodydd eraill, yn ogystal â darparu adnoddau amrywiol. Mae'r swydd yn un llawn amser ac yn agored i bersonau llyeg neu ordeiniedig, ond gellir ystyried rhannu'r wythnos waith rhwng mwy nag un person.

*Am fwy o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch â Gweinidog y Fro:
Parch. O. Aneurin Owen, Llwyn Derw, Llansannan, DINBYCH LL16 5NW*

☎ 01745 870618 ✉ aneurin@eglwysibroaled.com

DYDDIAD CAU: 20^{fed} Gorffennaf 2011

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Andras Iago yn arwain y canu, Rhodri Glyn yn pregethu, a phaned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • Mae picnic wedi ei drefnu i griw **CAP** i ddiweddu'r tymor. Dewch i Gae Chwarae Llansannan erbyn 4.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, dewch i'r Granar.
- **Diwrnod Gweddi** dros gyrsiau'r haf yng Ngholeg y Bala yn y pnawn a'r hwyr. Ffoniwch 01678 520565 am fwy o fanylion.
- Cynhelir **Cystadleuaeth Pêl-droed 5-bob-ochr** yng Ngherrigydrudion. Bydd tair cystadleuaeth: Bl.2,3 a 4; Bechgyn Bl. 5+6; a Merched Cynradd.
- Iau • Yr ail o dri sesiwn hyfforddiant ar y thema **Gofal Cristnogol** dan arweiniad y Parch Euros Wyn Jones yn Festri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. 'Adeiladu Eglwys' fydd thema'r noson heno. Croeso i bawb.
- Sadwrn • Cacen a phaned yn Heulfryn, Llansannan rhwng 3.00 a 5.30 i **Ddathlu Priodas Arian Meirion a Sarah Morris**. Croeso i bawb. Dim anrhegion ond os nad ydych chi wedi cael cyfle i gyfrannu i Apêl y Cartref Cariadus, mae croeso i chi wneud hynny. Bwriedir torri'r gacen am 4.00. Os bydd y tywydd yn anffafriol, dewch i'r Festri.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch John Barnett yn arwain oedfa fedydd yng Nghapel Soar am 10.00 pryd y bydd Eirian a Mathew Jones yn cyflwyno eu meibion Tomos a Lewis i'w bedyddio. Bydd Mr Thomas I. Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 2.00. (*SYLWER AR Y NEWID AMSER I'R DDWY OEDFA*) Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30, a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore am 10.00 yn Llanfair.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Andras Iago yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Saron (SYLWER AR Y NEWID).

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Mercher Paned a Sgwrs yng Nghaffi'r Siop am 3.00. Cyfle i gymdeithasu am rhyw orig fach.
- Gwener Taith Gerdded Plwyf Henllan (a drefnir gan aelodau'r capel a'r eglwys). Cyfarfod yn y Clwb Golf am 6.30 yn brydlon i'r rhai sydd am gerdded. Bwyta yn y Clwb Golff tua 8 o'r gloch. (Mae'n bosib y bydd gwartheg yn rhai o'r caeau, felly byddai'n well peidio dod â chŵn.) Dewis da o fwyd am £6.00 yr un a bydd dewis o bwddin ar gael ar y noson. Ffoniwch i archebu eich bwyd - 01745 812255. Edrychwn ymlaen i gael eich cwmni.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain ac yn Llanefydd am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos erbyn 9.00 nos Fercher i:
Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102